O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 486 (Cy. 81)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Aberhonddu i Lys-wen, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Dros Dro ar Draffig) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *23 Chwefror 2012* |
| *Yn dod i rym* | *5 Mawrth 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caerdydd – Llangurig (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd neu gyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Mawrth 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Aberhonddu i Lys-wen, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Dros Dro ar Draffig) 2012.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n achosi'r Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 08:00 o'r gloch ar 5 Mawrth 2012 ac a ddaw i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro'n cael eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r Gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A470 rhwng Aberhonddu a Llys-wen yn Sir Powys sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r A438 ym Mhontybat hyd at ganolbwynt ei chyffordd â'r A479 yn Llys-wen.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar wahân i gerbyd esempt, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd ar wahân i gerbyd esempt deithio, ar gyflymder o fwy na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar wahân i gerbyd esempt, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd ar wahân i gerbyd esempt deithio, ar gyflymder o fwy na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar wahân i gerbyd esempt, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd ar wahân i gerbyd esempt deithio, ar gyflymder o fwy na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio na chaniatáu defnyddio cerbyd, ar wahân i gerbyd esempt, yn y fath fodd ag i beri iddo oddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd yn ystod cyfnodau pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 yn weithredol.

**7.** Nid yw darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 ond yn gymwys yn ystod cyfnodau pan fo cymhwysiad y cyfyngiadau a'r gwaharddiad y cyfeirir atynt yn yr erthyglau hynny'n cael ei ddangos gan arwyddion traffig, ac i'r graddau y'i dangosir.

**8.** Bydd hyd y Gorchymyn hwn yn ddim mwy na 12 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 23 Chwefror 2012

*G R Morgan*
**GARETH MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; disodlwyd Adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.